# Diweddariad Polisi'r UE (EU2011.01):

# Y Gyfarwyddeb Ynni Effeithlon

## Diweddarwyd: 09 Chwefror 2011

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

Ar 22 Mehefin, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion am Gyfarwyddeb newydd ynghylch ynni effeithlon[1], gyda'r bwriad o sefydlu fframwaith cyffredin i'r UE er mwyn hyrwyddo ynni effeithlon ac i gael yr UE yn ôl ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r targed o arbedion ynni o 20% erbyn 2020[2].

Yn fras, y bwriad yw cael gwared ar y rhwystrau yn y farchnad ynni a goresgyn y methiannau yn y farchnad sy'n rhwystro cyflenwi a defnyddio ynni'n effeithlon. Mae camau penodol yn y Gyfarwyddeb ddrafft yn cynnwys:

**Defnyddwyr ynni:**

- **Gofynion ar y sector cyhoeddus** ynghylch adnewyddu adeiladau a chymhwyso safonau uchel o effeithlonrwydd ynni wrth brynu adeiladau, cynnyrch a gwasanaethau.
- Sefydlu **cynlluniau effeithlonrwydd ynni cenedlaethol**[3] **gofynnol**.
- **Archwiliadau ynni gofynnol rheolaidd i gwmnïau mawr**, a gofynion ar gwmnïau ynni o ran mesuryddion ac anfonebu.

**Y sector cyflenwi ynni**:

- **Cynlluniau cynhesu ac oeri cenedlaethol,** er mwyn datblygu'r potensial o gynhyrchu ynni hynod o effeithlon a chynhesu ac oeri effeithlon lleol, ac er mwyn sicrhau bod rheoliadau cynllunio gofodol yn cydymffurfio â'r cynlluniau hyn.
- **Meini prawf awdurdodi cenedlaethol,** er mwyn sicrhau bod safleoedd cynhyrchu trydan wedi'u lleoli **yn agos at fannau lle mae galw uchel am wres**, ac i sicrhau bod **unedau gwres a phwer cyfunedig** yn cael eu gosod ym mhob safle cynhrychu trydan newydd ac yn y safleoedd presennol sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol (i fod yn gymwys mewn safleoedd cynhyrchu trydan sydd â mewnbwn thermol o dros 20MW).
- Rhestrau cenedlaethol o ddata ar effeithlonrwydd ynni ar gyfer safleoedd cynhyrchu trydan sy'n hylosgi tanwydd neu sy'n puro olew mwynol a nwy.
- Gofynion ynghylch blaenoriaeth/sicrwydd mynediad i'r grid, ei gwneud yn flaenoriaeth i anfon trydan o ffynonellau cyd-gynhyrchu effeithlon uchel, a chysylltu gweithfeydd diwydiannol newydd sy'n cynhyrchu gwastraff i rwydweithiau lleol neu rwydweithiau oeri.

**Mae mesurau eraill arfaethedig yn cynnwys**:

- Gofynion effeithlonrwydd i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a dosbarthu gwybodaeth
- Gofynion ynghylch argaeledd cynlluniau ardystio, a chamau i hyrwyddo datblygu gwasanaethau ynni
- Gofynion cenedlaethol i gael gwared ar y rhwystrau i ynni effeithlon, yn cynnwys rhannu'r cymhellion rhwng perchennnog a thenant adeiladau neu ymysg

[1] COM(2011)370 – gweler y **Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Ynni**. Byddai hyn yn cymryd lle Cyfarwyddebau 2004/8/EC a 2006/32/EC os caiff ei mabwysiadu.
[2] Fel rhan o Strategaeth Ewrop 2020 a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2010 ac hefyd fel rhan o'r pecyn newid hinsawdd ac ynni a fabwysiadwyd yn 2009.
[3] Mae'r Comisiwn yn denfyddio'r gair "cenedlaethol" i olygu ar lefel yr Aelod-wladwriaeth, er mewn difrif, mae'r Aelod-wladwriaethau'n paratoi eu cynlluniau yn unol â'u trefniadau cyfansoddiadol eu hunain, a all olygu cynlluniau is-genedlaethol lle mae pwerau wedi'u datganoli i lywodraethau is-genedlaethol.

perchnogion adeiladau.

- Sefydlu targedau effeithlonrwydd ynni ar gyfer 2020.

## Y cefndir a'r cyd-destun i'r cynigion

Mae gwerthusiadau diweddar gan y Comisiwn wedi amcangyfrif mai ond tua hanner y targed effeithlonrwydd ynni o 20% erbyn 2020 y bydd yr UE yn ei gyflawni os bydd arferion presennol yn parhau. Mae'r Comisiwn yn dadlau bod angen cymryd camau cyffredin ar lefel yr UE er mwyn unioni'r targed.

Cyhoeddodd y Comisiwn Gynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni ym mis Mawrth 2011[4], a hynny mewn ymateb i alwad gan y Cyngor Ewropeaidd am 'gamau pendant i wneud y mwyaf o'r potensial am arbedion ynni uwch mewn adeiladau, trafnidiaeth a chynhyrchion a phrosesau'[5].

Un rhan yw effeithlonrwydd ynni o strategaeth ynni ehangach yr UE a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010, sef **Ynni 2020 – strategaeth ar gyfer ynni cystadleuol, cynaliadwy a sicr**, sy'n canolbwyntio ar yr heriau, sy'n cynnwys sicrwydd ynni, cyflawni amcanion ehangach o ran newid hinsawdd ac ymrwymiadau ynni adnewyddol, a datblygu marchnad ynni fewnol yr UE. Mae'r Comisiwn hefyd yn bwriadu cyhoeddi rhaglen fapio Ynni 2050, a fydd yn edrych ar y strategaeth fwy hirdymor.

## Perthnasedd i Gymru

Un o amcanion craidd *Datganiad Polisi Ynni* Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 yw gwella effeithlonrwydd ac arbedion ynni[6]. Bydd gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd mewn meysydd fel codi ymwybyddiaeth o faterion effeithlonrwydd ynni, ariannu prosiectau sy'n cefnogi effeithlonrwydd ynni ac annog y sector cyhoeddus i fod yn fwy ynni effeithlon. Fodd bynnag, nid oes gan Lwydoraeth Cymru gymhwysedd dros gwmnïau cynhyrchu ynni ar gyfer datblygiadau dros 50 MW. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd gymhwysedd i wneud cyfreithiau newydd sy'n "hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni a chadwraeth yn y cartref".[7]

## Barn Llywodraeth y DU

***Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol (ME) ym mis Gorffennaf a fydd yn ymateb i gynigion y Comisiwn. Caiff yr adran hon ei diweddaru'n unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r ME yn debygol o adeiladu ar y farn a roddwyd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Ynni Effeithlon, sydd â chrynodeb ohoni isod.***

**DIWEDDARWYD: 9 Chwefror 2012**

Mae ME Llywodraeth y DU ar y Cynllun Gweithredu Ynni Effeithlon[8] yn nodi nad yw effeithlonrwydd ynni yn rhan o gymhwysedd yr UE ac, o'r herwydd, y bydd yn ystyried materion o ran sybsidiaredd wrth i'r cynigion deddfwriaethol drafft ddatblygu yn sgil y Cynllun Gweithredu.

Mae'r ME ar y cyfan yn croesawu prif fyrdwn y cynllun, gan gytuno ag asesiad y Comisiwn o'r sefyllfa a'r pwyslais a roddir ar gamau a ellir ond eu cymryd ar lefel yr UE. Fodd bynnag, mae'n rhybuddio yn erbyn dull rhy llym o ran annog, hwyluso neu fynnu bod camau'n cael eu cymryd ar lefel genedlaethol, ac mae hefyd yn awgrymu y gallai'r targedau arfaethedig ar gyfer adnewyddu adeiladau cyhoeddus fod yn gostus a biwrocrataidd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei memorandwm esboniadol ar y Gyfarwyddeb ddrafft ynghylch effeithlonrwydd ynni ar 7 Gorffennaf.

Mae'r memorandwm yn sôn am ddiddordebau'r gweinyddiaethau datganoledig (gan gynnwys Cymru),

[4] **COM(2011) 109**
[5] Y Cyngor Ynni, 4 Chwefror 2011
[6] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad Polisi Ynni,*** Mawrth 2010
[7] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006***
[8] **EM7363/11**, 28 Mawrth 2011

ond nid yw'n nodi unrhyw bryderon penodol a godwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb ddrafft.

Mae Llywodraeth y DU yn nodi'r sylwadau a ganlyn ar y ddogfen, ond yn datgan hefyd ei bod wrthi'n paratoi asesiad o effaith y Gyfarwyddeb ddrafft:

- Mae'n croesawu'r cynnig ond yn awyddus i osgoi bod yn rhy ddeddfol o ran y camau sy'n ofynnol ar lefel genedlaethol
- Mae'n cytuno â'r Comisiwn nad oes angen llunio targedau cenedlaethol caeth ym maes effeithlonrwydd ynni
- Mae'n croesawu rôl caffael cyhoeddus wrth hybu effeithlonrwydd ynni, ond nid yw o blaid gosod targedau adnewyddu gorfodol ar adeiladau'r sector cyhoeddus
- Mae'n amlygu materion posibl ynghylch sybsidiaredd o ran rhoi gorfodaeth ar gyflenwyr ynni i arbed ynni
- Mae'n cefnogi hybu buddion archwiliadau ynni i gwmnïau, ond nid yw'n cytuno ag archwiliadau ynni gorfodol ar gwmnïau mawr
- Mae'n cefnogi cyflwyno system o fesuryddion deallus, ac y dylai hynny ddigwydd law yn llaw â hybu effeithlonrwydd ynni, ond mae'n cwestiynu gorfodi gofynion ar amlder a chywirdeb yr anfonebu, ac mae am weld ffactorau economaidd yn cael eu hystyried ar y sail nad yw mesuryddion deallus yn economaidd ymarferol ym mhob man
- Mae'n galw am ofynion cyd-gynhyrchu er mwyn ystyried pa mor gost effeithiol ydynt a'r gofynion gwrthdrawiadol posibl o ran lleoli safleoedd cynhyrchu trydan
- Mae'n mynegi pryderon ynghylch rhai mesurau a gynigiwyd sy'n mynd i'r afael â rhwystrau anrheoliadol ym maes effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys rhannu'r cymhellion rhwng tenantiaid a pherchnogion adeiladau. Pwy fyddai'n talu am welliannau i ardaloedd cyffredin mewn blociau o fflatiau/tenementau?

Mewn gohebiaeth dilynol i Bwyllgor Craffu Tŷ'r Cyffredin[9] cyflwynodd y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Mr Gregory Barker) **asesiad effaith cychwynnol** gan Lywodraeth y DU ar y cynigion. Roedd yn nodi amwysedd am gostau/buddion y cynigion, a'r effaith bosibl yn y DU. Nododd hefyd bryderon yngylch sybsidiaredd a godwyd o ran natur rhagnodol nifer o elfennau ar y Gyfarwyddeb ddrafft.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2011, gohiriodd **Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin** ystyriaeth[10] o'r drafft hyd nes ei fod yn gweld asesiad effaith Llywodraeth y DU. Ar ôl hynny, ailystyriodd y cynigion yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror, a oedd yn canolbwyntio ar y llythyr gan Weinidogion y DU (y cyfeirir ato uchod). Yn ôl y Pwyllgor,

> This ... merely reinforces our initial misgivings about the relative costs and benefits of this proposal, and our view that — quite apart from the intrinsic significance of the subject concerned — it raises a number of important issues, relating not least to the overly prescriptive nature of some of its provisions and to the principle of subsidiarity.

Trafododd **Pwyllgor Dethol Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi** y cynigion ym mis Gorffennaf ond penderfynodd i beidio â mynegi pryderon ynghylch sybsidiaredd.

## Barn Llywodraeth Cymru

Er na fydd gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd dros rai o'r cynigion yn y Gyfarwyddeb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni* yn 2011 sy'n adlewyrchu nifer o amcanion y Gyfarwyddeb.[11]

---

[9] Gweler **48fed adroddiad y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd ar gyfer sesiwn 2010-12**
[10] Gweler y nodyn o **gyfarfod Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf**
[11] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni***, 2011

Mae'r Cynllun yn cynnwys Gweledigaeth ar gyfer 2020, sef: y bydd busnesau Cymru'n cymryd mantais o'r cyfleoedd sy'n deillio o wneud Cymru'n fwy effeithlon o ran ynni; y bydd gan gartrefi a'r cyhoedd a'r trydydd sector ledled Cymru lai o allyriadau a chostau ynni; y bydd tlodi tanwydd wedi'i ddiddymu cyn belled â phosibl; y bydd perfformiad ynni adeiladau wedi gwella; ac y bydd ynni carbon isel yn cael ei gynhyrchu ar raddfa feicro a chymunedol. Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi cyflwyno mesuryddion deallus ledled Cymru.

## Cynnydd y cynigion drwy sefydliadau'r

***Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i'r trafodaethau ddigwydd ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol Sefydliadau'r UE ddod i'r amlwg.***

**DIWEDDARWYD: 9 Chwefror 2012**

### Monitro'r cynigion

Gellir dilyn cynnydd y cynigion drwy broses gwneud penderfyniadau'r UE ar ddwy wefan (mae'r ddau linc yn mynd â chi'n syth at y wybodaeth am y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni):

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Sylwer: mae'r tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y drafodaeth gyffredinol ar lefel yr UE, ond nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ar safbwyntiau'r DU neu Gymru ar y cynigion. Byddwn yn ymdrin ag hynny yn yr adrannau isod.

### Senedd Ewrop:

Y prif bwyllgor fydd y **Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni**. Nid oes yr un ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn.

Penodwyd **Claude Turmes ASE** (y Gwyrddion/Cynghrair Rhydd Ewrop) yn brif rapporteur ar 13 Gorffennaf, a phenodwyd Peter Liese ASE (Plaid Ewropeaidd y Bobl) ar 27 Gorffennaf i ddrafftio barn y pwyllgor (gan ymdrin ag agweddau ar y gyfarwyddeb ddrafft sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor).

Cyhoeddwyd adroddiad drafft Claude Turmes ar 4 Hydref a chyflwynwyd dros 1,800 o welliannau. Fe'u trafodwyd gan y Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni ar 20 Rhagfyr a 12 Ionawr (2012). Bwriedir i'r Pwyllgor fabwysiadu'r adroddiad ar 28 Chwefror, a chynigiwyd dyddiad dynodol, sef 22 Mai, ar gyfer ei fabwysiadu yn y darlleniad cyntaf yn y cyfarfod llawn [nid yw'r farn ddrafft wedi'i diweddaru ar gael eto].

Mabwysiadodd y Pwyllgor Amgylchedd ei **farn** (Peter Liese ASE) ar 18 Ionawr, sy'n cynnig 110 o welliannau i'r testun gwreiddiol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn gefnogol o gynigion Comisiwn Ewrop, ond mae'n galw am fesurau cryfach i annog gweithredu gan Aelod-wladwriaethau (gan gynnwys dull Ewropeaidd er mwyn annog cymryd camau uchelgeisiol ar y lefel cenedlaethol ) i gyflawni newid ar lawr gwlad.

### Cyngor y Gweinidogion:

Ym mis Mehefin 2011, mabwysiadodd y Cyngor Ynni gasgliadau ar y Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni[12].

Dechreuodd Gweithgor Ynni'r Cyngor weithio ar y cynigion ym mis Gorffennaf.

Trafododd y Gweinidogion y cynigion yn y Cyngor Trafnidiaeth, Telegyfathrebu ac Ynni ar **24 Tachwedd**, yn seiliedig ar adroddiad cynnydd gan Lywyddiaeth yr UE, o dan arweiniad Gwlad Pwyl bryd hynny, ar drafodaethau o fewn gweithgorau'r Cyngor. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn yn y **datganiad i'r wasg** o'r cyfarfod hwnnw:

> …it appears that delegations support the aim of the proposal and additional measures for energy efficiency. However they also underline the importance of flexibility for member states to apply the most cost-efficient measures, consistency with existing legislation and respect for the subsidiarity principle.
>
> The presidency report covers the main issues that will need more in-depth consideration: energy efficiency targets, public bodies, purchasing by public bodies, energy efficiency obligation schemes, energy audits and energy management systems, metering and informative billing, promotion of

[12] 10 Mehefin, y Cyngor Trafnidiaeth, Telegyfathrebu ac Ynni – gweler **y datganiad i'r wasg**

efficiency in heating and cooling, energy transmission and distribution and review and monitoring.

Bydd y Cyngor hwnnw yn cyfarfod eto ar 14 Chwefror a mae trafod y Gyfarwyddeb ar Effeithlonrwydd Ynni yn un o'r eitemau a restrwyd fel posibilrwydd o dan 'unrhyw fater arall'.

## Eraill:

Ar 13 Gorffennaf, mabwysiadodd Senedd Bafaria (y Landtag) gynnig yn datgan nad yw'r gyfarwyddeb ddrafft yn parchu'r egwyddor o sybsidiaredd. Mae'r cynnig yn amlygu nifer o bryderon:

- Y gofyniad i sicrhau bod 3% o adeiladau cyhoeddus yn cael eu hadnewyddu bob blwyddyn (Erthygl 4): pryder nad yw hyn yn ystyried y gwaith adnewyddu sydd eisoedd wedi'i wneud
- Y gofyniad i gyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd ynni gorfodol (Erthygl 6): credu nad oes angen gofyniadau ar lefel yr UE (pryder y mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU hefyd yn ei grybwyll – gweler uchod)
- Gofyniad ar gyfer cynlluniau cynhesu ac oeri cenedlaethol (Erthygl 10): dim digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen am feini prawf datblygu lleol/rhanbarthol
- Y gofyniad ar gyfer meini prawf awdurdodi ar gyfer pwerdai thermol trydan newydd (Erthygl 10.3): dim angen am ofynion ar lefel yr UE
- Rhannu cymhellion rhwng tenantiaid a pherchnogion (Erthygl 15): dylai'r berthynas rhwng tenantiaid a pherchnogion gael ei phennu gan ddeddfau cenedlaethol (nid cyfraith yr UE)

Cyfathrebwyd y pryderon hyn i'r Bundesrat yn Senedd Genedlaethol yr Almaen. Fodd bynnag, ni chefnogwyd y pryderon a godwyd gan Bafaria, ac ni chyflwynodd yr Almaen 'farn resymedig' ar y cynigion.

**Pwyllgor y Rhanbarthau** yw corff ymgynghorol yr UE sy'n cynrychioli awdurdodau rhanbarthol a lleol yn Mrwsel. Mabwysiadodd ei **farn** ar y Gyfarwyddeb ddrafft yn y cyfarfod llawn a gynhaliwyd ym Mrwsel ym mis Rhagfyr. Dylid nodi yn arbennig y ffaith i Bwyllgor y Rhanbarthau wrthod cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd i greu gofyniad i sicrhau bod 3% o adeiladau cyhoeddus yn cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Nid oes gan Bwyllgor y Rhanbarthau unrhyw bŵer (ar wahân i ddwyn perswâd) i orfodi newidiadau i'r cynigion.

Mabwysiadodd y **Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol** (corff ymgynghorol arall yr UE, ar gyfer grwpiau buddiant, gan gynnwys sectorau busnes, cymdeithasol a gwirfoddol) ei **farn** ar y drafft ar 26 Hydref.

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Gregg Jones (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**) Swyddfa'r UE, Ffôn. 0032 2 226 6692, neu
Graham Winter (**Graham.Winter@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil, estyniad 8166.